Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Adolygu Cynnydd yn erbyn Safonau Gofal Iechyd Cymru – 1 Ebrill 2006 – 31 Mawrth 2007

Hydref 2007

Cynnwys

		Rhif y Dudalen
1.	**Cyflwyniad a Chyd-destun**	**1**
2.	**Proses Asesu 2006-07**	**5**
3.	**Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**	**9**
4.	**Canfyddiadau**	
	▪ Profiad y Claf	**11**
	▪ Canlyniadau Clinigol	**21**
	▪ Llywodraethu Gofal Iechyd	**25**
	▪ Iechyd y Cyhoedd	**41**
5.	**Y Camau Nesaf**	**43**
	Atodiadau	
	Atodiad 1: Diffiniadau o'r Lefelau Aeddfedrwydd	**45**
	Atodiad 2: Crynodeb o'r Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon	**47**
	Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefel Gorfforaethol, Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Lefel Profiad Defnyddwyr	**55**
	Atodiad 4: Termau Allweddol	**57**

1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Yn yr adroddiad hwn, cyflwynir canfyddiadau'r gwaith a gwblhawyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunan-asesiad o berfformiad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru 2006-2007 yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Ynddynt, gosodwyd allan fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a phartner-sefydliadau i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol ac o ansawdd da ar draws pob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Uwchlaw popeth, mae'r Safonau Gofal Iechyd wedi'u cynllunio i ddarparu'r lefelau gwell o ofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru yr hawl i'w disgwyl, o fewn rheswm ac, o ganlyniad, maent yn darparu sylfaen y gall cyrff gofal iechyd adeiladu arnynt a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal i gleifion fel ag y'u hamlinellir yn strategaeth 10-mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, *'Cynllun Oes'.* Mae'n ofynnol i bob corff gofal iechyd[1] yng Nghymru roi ystyriaeth i safonau wrth ddarparu gofal iechyd ac wrth gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, beth bynnag am y lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn amlinellu 32 o safonau dan bedwar maes. Mae pob maes yn deillio o'r gwerthoedd craidd a ddylai fod wrth wraidd y broses o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon o fewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd a gynrychiolir gan y maes hwnnw.

[1] Diffinnir cyrff gofal iechyd fel cyrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a chyrff ac unigolion eraill gan gynnwys y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd.

- Mae'r maes cyntaf *'Profiad y Claf'* yn gosod allan y:

  Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â'r cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau'r cleifion unigol. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol ac yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.

- Mae'r ail faes '*Canlyniadau Clinigol'* yn sefydlu y:

  Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth gwaith ymchwil a gaiff ei asesu'n briodol ac yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal.

- Mae'r trydydd maes *'Llywodraethu Gofal Iechyd'* yn ei gwneud yn glir y:

  Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau ar waith sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Bydd arferion gwaith wedi'u sefydlu i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, *dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn elfennau annatod o'r holl arferion, prosesau a gweithgareddau*.

- Mae'r pedwerydd maes *'Iechyd y Cyhoedd'* yn datgan y:

  Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.

Sicrhau Cydymffurfiad

1.5. O fis Ebrill 2007 ymlaen bydd yn ofynnol i gyrff gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunan-asesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd a datgan yn gyhoeddus sut y maent wedi perfformio yn flynyddol.

1.6. Mae'n ofynnol i gyrff gyflwyno eu datganiad a'u ffurflenni hunan-asesu'n ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am gymryd yr awenau gyda'r

gwaith o brofi a dilysu'r ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad sy'n seiliedig ar risg, yn erbyn amrediad o ffynonellau data. Mae'r broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 wedi'i hamlinellu yn yr adran a ganlyn.

1.7. O fis Ebrill 2008 ymlaen, defnyddir graddau cydymffurfio yn erbyn safonau gofal i oleuo Datganiadau Rheolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol cyrff.

2. Proses Asesu 2006-2007

Yr Hunan Asesiad

2.1. Bu 2006-2007 yn flwyddyn o ddatblygu pan gafodd proses newydd o asesiadau ei datblygu a'i phrofi. Rhoddwyd y pwyslais ar ddatblygu proses asesu sy'n rhoi cyfrifoldeb am lynu wrth *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ar Fyrddau cyrff gofal iechyd ac sy'n cefnogi'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb ar gyrff gofal iechyd am safon y gwasanaethau a ddarperir ganddynt ac y caiff cleifion a'r cyhoedd fwy o wybodaeth am berfformiad eu darparwyr gofal iechyd a chomisiynwyr ac, yn bwysicach fyth, y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Trwy ymgynghori â chyrff gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunan-asesu sy'n profi'r perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel benodol:

- *Corfforaethol* – i ba raddau y gwnaiff Byrddau eu gwaith o ran sicrhau y cydymffurfir â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* – sut y caiff cydymffurfiad â'r safonau ei sicrhau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad Defnyddwyr*[2] – pa fath o brofiad a gaiff defnyddwyr ac a yw'n gwella?

2.3. Mae meini prawf a chwestiynau asesu wedi'u gosod ar gyfer pob safon ac wedi'u datblygu i fod yn ddull asesu ar y we sy'n caniatáu cwblhau'r hunan-asesiadau ar-lein a llwytho tystiolaeth ddogfennol i fyny i gefnogi'r atebion a roddir yn erbyn pob cwestiwn. Caiff y cwestiynau eu cefnogi gan ganllawiau sy'n rhoi arweiniad buddiol ar ofynion pob un o'r 32 safon.

2.4. Bu'n ofynnol i gyrff asesu eu cynnydd wrth gyflawni'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 safon gan ddefnyddio matrics aeddfedrwydd. Mae'r matrics aeddfedrwydd yn caniatáu ar gyfer asesu perfformiad ar lefel gorfforaethol, lefel

[2] Yng nghyd-destun y broses asesu Safonau Gofal, defnyddir y term 'defnyddwyr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a staff.

canlyniadau gweithredol a lefel profiad defnyddwyr i gyfateb ag un o'r pump lefel aeddfedrwydd:

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Ceir diffiniad o bob un o'r lefelau aeddfedrwydd hyn yn Atodiad 1.

2.5. A hithau'n flwyddyn o ddatblygu, bu'n rhaid i gyrff y GIG gydymffurfio ag amserlenni tynn ac yr oedd yn ofynnol iddynt gyflwyno eu hunan-asesiad, wedi'i gwblhau, i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis ar ôl rhyddhau'r dull asesu. Llwyddodd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gwblhau'r hunan-asesiad mewn pryd a charem gydnabod gwaith, ymdrech ac ymroddiad enfawr yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau'n brydlon.

Profi a Dilysu

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r hunan-asesiad gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ac mae hyn wedi golygu cwblhau nifer o gamau:

- *Cam 1* – Dilysiad bwrdd gwaith o'r hunan-asesiad gan dîm o adolygwyr lleyg ac adolygwyr cymheiriaid. Yr oedd y cam hwn yn golygu cadarnhau bod y cwestiynau a oedd yn cefnogi pob maen prawf wedi'u hateb yn briodol, profi bod yr ateb wedi'i gefnogi gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol ac arfarnu a oedd yr ateb yn cyd-fynd â'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y corff.

- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli trwy fis Awst i gymharu a chyferbynnu'r ymatebion a'r graddfeydd aeddfedrwydd fesul corff a fesul safon. Yr oedd y rhan hon o'r broses yn allweddol o ran sicrhau bod y sgoriau'n gyson ac yn safonedig.

- *Cam 3* – Ymweld â chyrff yn eu safleoedd i brofi agweddau pwysig o brofiad y claf/defnyddiwr.

Yr Ymweliad Safle

2.7. O ystyried maint y gwaith adolygu y bu'n rhaid i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ymgymryd ag o dros y 18 mis diwethaf, teimlai AGIC ei bod yn fwy priodol trefnu cyfarfod gydag uwch aelodau allweddol o'r Ymddiriedolaeth i brofi a dilysu ymhellach y wybodaeth a gafwyd. Yn y cyfarfod, casglwyd gwybodaeth bellach a chafwyd mwy o eglurder ynghylch manylion o gyflwyniad Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a chyflwyniad Galw Iechyd Cymru o ystyried eu bod, bellach, yn un corff.

Uwch-gynadleddau Gofal Iechyd

2.8. Ym mis Awst, aeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ati i gydlynu a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwch-gynadleddau Gofal Iechyd', gan ddwyn ynghyd gyrff adolygu ac archwilio er mwyn gallu rhannu gwybodaeth a'i bwydo i mewn i'r broses o gadarnhau'r asesiad o Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwch-gynadleddau hyn yn gam allweddol mewn ymdrech i rannu gwybodaeth i raddau helaethach dros gyrff adolygu ac i ddatblygu cyd-gynlluniau ar gyfer archwilio a sicrhau.

3. Trosolwg o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

3.1. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ym 1998.

3.2. Caiff yr Ymddiriedolaeth ei rheoli gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol sy'n cyfarfod yn rheolaidd mewn gwahanol leoliadau yng Nghymru.

3.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cyflogi oddeutu 2,500 o aelodau staff i ddarparu gwasanaethau ambiwlans a gwasanaethau cysylltiedig. Mae'n gweithredu o 90 o orsafoedd ambiwlans, pedair canolfan reoli, tair swyddfa ranbarthol a phum Gweithdy i gerbydau. Yn Ysbyty HM Stanley, Llanelwy, Gogledd Cymru y mae'r Brif Swyddfa. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd Goleg Hyfforddi Cenedlaethol gyda chanolfannau hyfforddi rhanbarthol.

3.4. Yn 2006-07 ymatebodd yr Ymddiriedolaeth i 287,594 o ddigwyddiadau brys, 56,282 o siwrneiau argyfwng a chludo 1,360,445 o gleifion nad oeddent yn achosion brys i dros 200 o ganolfannau triniaethau ledled Cymru a Lloegr.

3.5. Mae'r nifer gynyddol o alwadau brys yn her sylweddol i'r Ymddiriedolaeth.

3.6. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi wynebu sialensiau arbennig o anodd dros y 18 mis diwethaf, gyda newidiadau mewn arweinyddiaeth, nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn ogystal ag adolygiadau gwasanaeth trylwyr gan Swyddfa Archwilio Cymru a ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymateb i'r materion hyn trwy ddatblygu a chyflwyno ei rhaglen foderneiddio yn 2006 sef '*Amser i Wneud Gwahaniaeth*'.

4. Canfyddiadau – Gan gynnwys Meysydd i'w Gwella ac Arfer Da

4.1 Profiad y Claf

Safon 1
Ymgynghorir â chleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd a rhoddir ystyriaeth i'w barn wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.

S1.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol oedd **Datblygu**, **Ymwybodol** ar y lefel Weithredol ac **Ymateb** ar y lefel Profiad Defnyddwyr.

S1.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Sefydlwyd Pwyllgor Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd ac mae hwnnw'n is-bwyllgor o'r Bwrdd.
- Mae protocol ffurfiol ar waith rhwng yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru.
- Mae gwefan yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys cyfleuster i adrodd yn ôl er mwyn caniatáu i gleifion ac i'r cyhoedd fynegi eu barn.
- Cynrychiolaeth o'r CIC ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.
- Cynhaliwyd arolygon gyda chleifion.

S1.3. Er ein bod yn gallu cadarnhau asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Datblygu** ar y lefel gorfforaethol, mae'n bwysig fod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal yr adolygiad a drefnwyd o strategaeth Cynnwys y Cyhoedd a'r Cleifion sy'n amlinellu ymrwymiad y Bwrdd i weithio gyda chleifion a'r cyhoedd. Ymhellach, er bod y Cynllun Moderneiddio yn cynnig strwythur a fframwaith clir ar gyfer datblygu gwasanaethau, nid yw'n glir sut y caiff sylwadau'r cleifion a'r cyhoedd eu casglu er mwyn dylanwadu ar siâp gwasanaethau i ddod. Mae polisi cwynion ar waith ond nid yw'n glir sut y mae'r gwersi a ddysgwyd yn sgil cwynion wedi'u rhaeadru i staff fel y gellir gwella ar wasanaethau.

S1.4. Mae asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Ymwybodol** ac **Ymateb** ar y lefel Weithredol a'r lefel Defnyddwyr, y naill a'r llall, wedi'u cytuno.

Safon 2
Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:

a. yn adlewyrchu profiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;
b. yn adlewyrchu anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;
c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol; ac
ch. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau.

S2.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S2.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos fod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon trwy atgyfnerthu'r themâu allweddol yn ei Chynllun Moderneiddio ynghylch y modd y caiff gofal priodol ar sail tystiolaeth ei ddarparu i gleifion yn ogystal â'r ffocws ar staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac yn ddigonol. Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y flaenoriaeth o sefydlu strwythur llywodraethu clinigol priodol ar draws y corff, sy'n rhoi sylw i bob agwedd o fusnes yr Ymddiriedolaeth. Fel rhan o'r Cynllun Moderneiddio, mae'r Ymddiriedolaeth wedi sefydlu proses ar gyfer adrodd yn ôl i'r Bwrdd. Fodd bynnag, mae'r angen i ddatblygu fframwaith i fonitro ac olrhain gwelliannau ym mherfformiad y rhaglen yn erbyn amser yn hollbwysig.

S2.3. Er ein bod yn gallu cadarnhau asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel, mae'n bwysig y rhoddir cynlluniau'r Ymddiriedolaeth o amgylch llywodraethu clinigol ar waith a bod y rhanbarthau yn meddu ar yr un strwythurau, polisïau a threfniadau ar gyfer llywodraethu clinigol gan roi ystyriaeth i integreiddio Galw Iechyd Cymru.

Safon 3
Bydd cleifion a chanddynt anghenion iechyd brys yn cael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn y terfynau amser cenedlaethol a bennir yn flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

S3.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol, a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S3.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos ei bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y Cerdyn Sgorio Cytbwys a Thargedau'r Fframweithiau Gwasanaeth a Chyllid (SaFF), sy'n cwmpasu'r targedau achosion brys cenedlaethol. Hefyd, cyflwynir papur briffio i'r Bwrdd sy'n gosod allan lefelau'r cydymffurfio a pha gamau a gymerir i sicrhau a chynnal y lefelau priodol o berfformiad.

S3.3. Gall AGIC gadarnhau asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Defnyddwyr. Dangosir defnydd ymarferol o'r safon hon trwy'r canlynol:

- Mae gan bob canolfan weithredol fynediad at y we a chaiff y staff eu hannog i gyrchu at wybodaeth am berfformiad.
- Darperir gwybodaeth a diweddariadau i bob aelod staff drwy'r post ynghylch Cynllun Moderneiddio'r Ymddiriedolaeth.
- Caiff papurau briffio'r bwrdd eu dosbarthu'n fisol er mwyn i bob aelod staff allu eu darllen.
- Gwelliant cyffredinol yn y perfformiad i gyrraedd y targedau dros y 12 mis diwethaf.

Boddhaol oedd nodi'r cynnydd a wneir yng nghyswllt cyflawni targedau cenedlaethol.

Safon 4
Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda er mwyn:

a. hybu lles y cleifion a'r staff;
b. parchu anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;
c. ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff; a
ch. darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y sefydliad.

S4.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Ymarfer**.

S4.2. Dyma enghreifftiau o'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r asesiad hwn ar bob un o'r tair lefel:

- Mae'r Ymddiriedolaeth, ar hyn o bryd, yn cynnal cyfres o brosiectau ystadau fel rhan o'r Cynllun Moderneiddio a fydd yn datblygu'r isadeiledd ystadau er mwyn sicrhau ei fod yn addas i gyflawni amcanion darparu'r gwasanaeth.
- Darparwyd cyllid i brynu amrywiaeth o gerbydau newydd a gynlluniwyd trwy gydweithrediad Gweithgor Cerbydau ac Offer Clinigol yr Ymddiriedolaeth.
- Gweithredwyd ar gynlluniau buddsoddi cyfalaf.
- Cafwyd gwelliannau mewn pedair ar bymtheg o orsafoedd ambiwlans yng nghyswllt eu cyfleusterau i staff.
- Sefydlwyd Cydbwyllgorau Staff/Rheolwyr ar gyfer Iechyd, Diogelwch a Lles ar raddfa Genedlaethol a Rhanbarthol.

S4.3. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd wedi cymryd camau i symud yr agenda strategol yn ei blaen a'i monitro. Fodd bynnag, nid oedd digon o dystiolaeth arwyddocaol i ddangos gwelliant parhaus ar bob un o dair lefel y corff ac, fel y cyfryw, yr ydym wedi cytuno mai **Datblygu** a wna'r corff ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 5
Mae gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn mannau sydd

a. yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda at safonau glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;
b. yn gostwng y perygl i gleifion, staff ac ymwelwyr o ddal heintiau cysylltiedig â gofal iechyd, gan leihau nifer yr achosion o flwyddyn i flwyddyn; ac
c. yn pwysleisio safonau uchel o ran hylendid ac yn cydymffurfio â mentrau i annog yr arferion gorau.

S5.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol oedd **Datblygu**. Ar y lefel Profiad Defnyddwyr, asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun oedd **Ymwybodol.**

S5.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon a dyma rai o'r camau hynny:

- Penodi Rheolwr Ystadau a chyflwyno tri Swyddog Ystadau Rhanbarthol
- Strategaeth a phrosiectau Ystadau fel rhan o'r Cynllun Moderneiddio
- Cynnal archwiliadau rheoli heintiau blynyddol ar gerbydau
- Dull Asesu a Chynllun Gweithredu strategol i reoli heintiau.

Mae Cynllun Moderneiddio'r Ymddiriedolaeth yn datgan ei fwriad i symud tuag at weithredu system '*Make Ready*' sydd, o'i weithredu, yn sicrhau glendid ym mhob cerbyd gweithredol.

S5.3. Nodwyd bod archwiliadau blynyddol yn cael eu cynnal ledled yr Ymddiriedolaeth gan aelodau o'r Timau Rhanbarthol Rheoli Heintiau ac mae'r rhain yn canolbwyntio ar orsafoedd ambiwlans a cherbydau. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn eu dadansoddi gan y timau rheoli heintiau ac mae'r camau angenrheidiol yn ffurfio rhan o'r cynlluniau gweithredu ar gyfer rheoli heintiau.

S5.4. Boddhaol oedd nodi fod yr Ymddiriedolaeth, er nad yw'n ofynnol iddi gymryd rhan yn yr arolygiad Heintiau sy'n Gysylltiedig ag Iechyd, yn cwblhau dull asesu yn seiliedig arddull hunan-asesu'r Adran Iechyd ar gyfer gwasanaethau ambiwlans i fonitro cydymffurfiad y sefydliad ac adroddiadau yn gyffredinol o fewn y Cerdyn Sgorio Cytbwys.

S5.5. Gallwn gadarnhau asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac **Ymwybodol** ar lefel Profiad Defnyddwyr. Anodd, fod bynnag, oedd pennu'r terfynau amser ar gyfer rhai o'r camau gweithredu. Er ein bod yn gallu cadarnhau asesiad yr Ymddiriedolaeth fel 'Datblygu' cafwyd tystiolaeth nad oedd trefniadau ar waith i lanhau pob un o safleoedd yr Ymddiriedolaeth ac mai trefniadau glanhau ad hoc sydd ar waith mewn rhai o'r lleoliadau. Mae'r ymarfer hwn yn dameidiog ledled yr Ymddiriedolaeth gyda rhai ardaloedd yn dibynnu ar staff gweithredol i gynnal safonau glendid. Ni ellir rhoi sicrwydd i'r Bwrdd, felly, fod trefniadau digonol ar waith i gyrraedd y safonau

cytunedig cenedlaethol ac mae angen sicrhau bod y Strategaeth Ystadau yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Safon 6
Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:

- *a. yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau ar gael ac o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- *b. yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; ac*
- *c. yn rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Ymateb.**

S6.2. Cadarnhaodd yr asesiad fod y Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol a dynodwyd amrediad o opsiynau ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol i fynd i'r afael â hwy. Dyma rai ohonynt;

- Strategaeth gyfathrebu sy'n gosod allan ymrwymiad y corff i ddarparu gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarpara i'r cyhoedd.
- Gwefan ddwyieithog newydd ar y rhyngrwyd sy'n caniatáu mynediad haws at wybodaeth.
- Mae'r ymddiriedolaeth yn arddangos yn 'Ambex' yr arddangosfa gofal cyn-ysbyty er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau ambiwlans.
- Mae llyfr ymadroddion amlieithog wedi'i ddatblygu i staff ambiwlansys ac ar gael i gefnogi staff 'rheng flaen' i gefnogi unigolion nad ydynt yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Darperir gwybodaeth mewn 31 o ieithoedd ac mae hynny'n cynnwys yr wyddor byddar/dall. Mae llinell iaith ar gael hefyd i gefnogi unigolion i fanteisio ar y gwasanaeth.

S6.3. Mae'n bwysig, wrth symud ymlaen â'r maes hwn o weithgarwch o fewn yr Ymddiriedolaeth, y rhoddir ystyriaeth i waith Galw Iechyd Cymru (NHSDW) a'i

integreiddio i gynlluniau at y dyfodol i gynorthwyo gyda'r gwaith o wella perfformiad cyffredinol yr Ymddiriedolaeth.

S6.4. Cytunwn ag asesiad yr Ymddiriedolaeth ei bod yn **Ymateb** ar bob un o'r tair lefel ynghylch y safon hon.

Safon 7
Mae cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.

S7.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Ymateb**.

S7.2. Dyma rai o'r camau sydd ar waith:

- Hyfforddiant i staff sy'n canolbwyntio ar ganiatâd i roi triniaeth a chaniatâd ar sail gwybodaeth.
- Hyfforddiant i staff ar thrombolysis i alluogi staff parameddygol i ddilyn cyfres o brotocolau i drin cleifion ac sy'n golygu cyswllt â cleifion i bennu camau gweithredu priodol.
- Cynlluniau i hyfforddi grŵp o staff parameddygol mewn partneriaeth â rhwydwaith y galon i gynnal cyfweliadau 'Canfod' gyda chleifion.

S7.3. Gallwn gadarnhau'r asesiad hwn o **Ymateb** ar bob un o'r tair lefel yn seiliedig ar yr ymateb a'r dystiolaeth a roddwyd, gan gydnabod bod yn rhaid cymryd camau er mwyn datblygu yn erbyn y safon hon. Mae'r Bwrdd wedi cydnabod y materion ac mae amrediad o opsiynau wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, hyd yma, nid oes tystiolaeth ynghylch y cyfeiriad strategol cyffredinol. Tra bo'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod rhai o'r camau allweddol a oedd yn angenrheidiol i fwrw ymlaen â'r maes hwn o waith, mae angen datblygu cynlluniau strategol i weithredu ar hyn.

Safon 8

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;

b. bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch beth bynnag am y gwahaniaethau rhyngddynt;

c. yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion; a

ch. bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu i'r gwrthwyneb.

S8.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S8.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod camau'n cael eu cymryd ar lefel y Bwrdd a'r lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol i fynd i'r afael â'r safon hon:

- Yr oedd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'u sefydlu, gan gynnwys polisi caniatâd i roi triniaeth.
- Mae pob aelod staff y gwasanaethau meddygol brys yn ymgymryd â hyfforddiant ar y cod ymddygiad.
- Mae staff gweithredol wedi cael eu hyfforddi yn yr amrediad cyfan o bolisïau gan gynnwys: amddiffyn oedolion diymgeledd, caniatâd i roi triniaeth, adnabod bywyd diflanedig/peidio â cheisio dadebru, diogelu a lles plant a chwblhau cofnodion clinigol y cleifion.
- Mae pob polisi yn cynnwys cyfeiriad at bwysigrwydd urddas a pharch.

S8.3. O safbwynt y staff, mae grŵp staff Du a Lleiafrifoedd Ethnig yr Ymddiriedolaeth wedi'i sefydlu ac mae aelod o'r grŵp hwn yn eistedd ar y grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Cynhelir arolwg staff bob dwy flynedd. Cynhelir cyfweliadau cyn ymadael i staff a chaiff unrhyw faterion a ddynodir eu dilyn i fyny. O'r wybodaeth ychwanegol a gasglwyd i gefnogi'r broses adolygu, mae'n glir fod y diwylliant, sy'n bennaf wrywaidd, ac a fu'n amlwg o fewn y gwasanaeth ambiwlans yn y gorffennol, yn parhau er gwaethaf y nifer gynyddol o staff benywaidd ar bob

lefel o fewn y corff. Gallai'r diwylliant hwnnw, ar wahân i wneud rhai cydweithwyr benywaidd deimlo'n anghysurus, atal neu gyfyngu gallu'r Ymddiriedolaeth i wneud defnydd llawn o'r holl sylwadau a doniau sydd ar gael iddi.

S8.4. Ar lefel Profiad Defnyddwyr, mae'r holiadur anabledd ym mis Gorffennaf 2006 wedi darparu gwybodaeth sydd wedi poblogi'r cynllun gweithredu a'r cynllun cydraddoldeb anabledd.

S8.5. Cytunwn â'r asesiad o **Datblygu** ar bob lefel ond mae angen sefydlu trefniadau priodol ar gyfer monitro i ba raddau y cydymffurfir â pholisïau sy'n gysylltiedig â chyfrinachedd a rhannu gwybodaeth. Mae'n bwysig nodi bod angen adolygu polisïau a gweithdrefnau er mwyn sicrhau y caiff y rhai a wnaeth gais i NHSDW eu hintegreiddio'n briodol.

Safon 9
Yn y mannau lle darperir bwyd, bydd systemau ar waith i sicrhau:

a. bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet cytbwys; a

b. *bod gofynion maeth, personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion unigol o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1. Cytunwyd nad yw'r safon hon yn berthnasol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Safon 10
Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw gamwahaniaethu ar sail oedran, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd, na thueddfryd rhywiol.

S10.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Ymarfer,** a **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S10.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos fod y Bwrdd yn symud yr agenda strategol yn ei blaen er mwyn mynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r camau a gymerodd yn cynnwys;

- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a Chynllun Gweithredu

- Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a Chynllun Gweithredu
- Penodi a chadw staff gyda pholisi anableddau
- Sefydlu is-grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

S10.3. Dylid nodi fod cyfeiriad at lwyddiant yr Ymddiriedolaeth, mewn arfarniad o berfformiad Cydraddoldeb Hiliol cyrff y GIG yng Nghymru a gynhaliwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, o ran dangos sylw dyledus i gydraddoldeb hiliol a dynodwyd hefyd ei bod yn gryf yn y maes hwn.

S10.4. Ar y lefel weithredol, rhoddwyd tystiolaeth o amrywiaeth o hyfforddiant i staff yn ogystal â chyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth. Ymysg y rhain mae:

- Hyfforddiant ymwybyddiaeth ddiwylliannol.
- Llyfrau ymadroddion amlieithog sydd ar gael ym mhob cerbyd rheng flaen.
- Dogfennau gwybodaeth ar grefydd neu gred, tueddfryd rhywiol, oedran ac anabledd.
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd.
- Dau leoliad ar Gynllun Prentisiaeth Cyfieithwyr Iaith Arwyddion Prydain i Gymru.

S10.5. Ystyriwn fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r prif faterion a cheir tystiolaeth o ddefnydd ymarferol ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, ceir diffyg tystiolaeth ynghylch meincnodi, arfarnu a gwelliannau parhaus i gyfiawnhau asesiad o Ymarfer ac, felly, mae AGIC yn ystyried mai **Datblygu** a wna'r Ymddiriedolaeth ar bob un o'r tair lefel.

4.2. Canlyniadau Clinigol

Safon 11
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol priodol;
c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddaru eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid; a
ch. bod clinigwyr yn cyfrannu at y gwaith o archwilio ac adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.

S11.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol oedd **Datblygu** ac **Ymateb** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol Clinigol.

S11.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae'r camau hynny'n cynnwys:

- Gweithredu Strategaeth Effeithioldeb ac Archwiliad Clinigol a sefydlu gweithgor perthynol.
- Gweithredu Strategaeth Llywodraethu Clinigol ac is-bwyllgor.
- Mae pob aelod staff parameddygol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd.
- Mae staff dan hyfforddiant yn cael eu hyfforddi gan y Coleg Hyfforddi Ambiwlans Cenedlaethol i fodloni meini prawf y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

S11.3. Mae'r Ymddiriedolaeth yn meddu ar raglen o archwiliadau clinigol a gaiff ei goleuo gan dystiolaeth newydd a phroses o ddynodi diffyg cydymffurfio yn erbyn dangosyddion perfformiad a danlinellir trwy fonitro parhaus. Fodd bynnag, mae angen adolygu'r trefniadau ar gyfer goruchwylio clinigol hefyd.

S11.4. Gallwn gadarnhau asesiad o **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr ar gyfer y safon hon

ond mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau y caiff gofynion ei 'chyfarwyddiaeth gofal heb ei drefnu' newydd eu hadlewyrchu yn ei hadolygiad o'r trefniadau presennol.

Safon 12
Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:

a. yn cydymffurfio â gwerthusiadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE), ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);

b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau cenedlaethol ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt;

c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion; ac

ch. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth di-fwlch ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.

S12.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu.**

S12.2. Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ceir tystiolaeth fod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r prif ystyriaethau. Dyma rai enghreifftiau ymarferol o weithredu'r camau:

- Mae'r staff gweithredol yn cael eu hyfforddi'n briodol.
- Mae polisïau ar waith ynghylch diogelu plant a lles plant ac amddiffyn oedolion diymgeledd.
- Mae ambiwlansys newydd wedi'u cyflwyno sy'n cludo cadeiriau olwyn.
- Gweithio'n glòs gyda'r gymuned Fwslimaidd mewn ardaloedd allweddol.
- Penodi Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

S12.3. Cafwyd tystiolaeth o welliannau a gyflawnwyd o ganlyniad i gwynion cleifion. Un datblygiad pwysig sydd wedi'i drefnu ac y mae angen gweithredu arno i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni'r safon hon yw datblygu'r tair ystafell rheoli ambiwlansys ledled Cymru i fod yn ganolfannau cydlynu iechyd a chyd-gysylltu'r ymateb i ofal brys yn ogystal â gofal heb ei drefnu.

S12.4. Adeg y cyflwyniad, yr oedd yr Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag adolygiad trylwyr o strwythurau llywodraethu clinigol ac yn adrodd am beirianweithiau i roi ystyriaeth i'r broses o integreiddio NHSDW. Yr ydym felly yn cytuno gydag asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 13
Bydd cyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, yn meddu ar systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu parchu'n gyson.

S13.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu.**

S13.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon a chafwyd tystiolaeth y gwnaed defnydd ymarferol o'r camau ledled y sefydliad. Dyma rai o'r camau a gymerwyd:

- Mabwysiadu Strategaeth Ymchwil a Datblygu Glinigol (Y&D) a phwyllgor.
- Strwythur Y&D priodol gyda pherson priodol yn ei arwain.
- Cyhoeddi datganiad llywodraethu ymchwil gan yr Adran Y&D sy'n amlinellu'r modd y mae polisïau, gweithdrefnau a systemau o fewn yr Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â 'Fframweithiau Llywodraethu Ymchwil ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru' o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Mae'r pwyllgor Y&D yn chwilio am gyfleoedd Y&D ac yn annog staff i gyfrannu at y gwaith ymchwil.

S13.3. Yn ôl strategaeth Y&D yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol i'r arweinydd Y&D adrodd i bob pwyllgor perthnasol a chyfrannu at y cylchlythyr llywodraethu clinigol yn rheolaidd a chaiff tudalen we Y&D ei chynnwys ar wefan rhyngrwyd yr Ymddiriedolaeth.

S13.4. Mae gan yr adran Y&D becyn ymchwilydd a roddir i'r aelodau staff hynny sy'n dangos diddordeb mewn gweithgareddau ymchwilio ac mae gan yr Ymddiriedolaeth gynrychiolwyr lleyg, trwy'r CIC, ar y pwyllgor Y&D.

S13.5. Cytunwn gydag asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Datblygu** ar pob un o'r tair lefel.

4.3. Llywodraethu Gofal Iechyd

Safon 14
Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch a iechyd y cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.

S14.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol oedd **Ymarfer** a **Datblygu** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr.

S14.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i symud ei agenda strategol yn ei blaen er mwyn mynd i'r afael â'r safon hon, a bod ganddo:

- Strwythur pwyllgorau sy'n adrodd i'r Bwrdd.
- Cydbwyllgor Cenedlaethol ar gyfer iechyd a diogelwch a lles a thri Chydbwyllgor Rhanbarthol. Mae'r rhain yn sicrhau y caiff materion eu dynodi, eu hasesu ac yr ymdrinnir â hwy ar bob lefel.
- Polisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd.
- System i adrodd am ddigwyddiadau andwyol sy'n dadansoddi'r tueddiadau a'r hyfforddiant i staff.
- Swyddogion Iechyd a Diogelwch sy'n cynnig cyngor proffesiynol.

S14.3. Er bod tystiolaeth fod camau wedi'u cymryd ar y lefel Gorfforaethol, nid oedd tystiolaeth sylweddol o welliannau parhaus ac, yn hynny o beth, ein hasesiad yw fod y corff yn **Datblygu** ar bob lefel.

Safon 15
Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:

a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;
b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r gweithdrefnau cwyno;
c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir

gan Gynghorau Iechyd Cymunedol yng Nghymru; ac

ch. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.

S15.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac ar y lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S15.2. Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon. Dyma rai o'r camau hynny:

- Polisi a threfn gwyno.
- Darpariaeth o wybodaeth am y drefn gwyno i'w chael ar fewnrwyd, allrwyd a gwefannau rhyngrwyd yr Ymddiriedolaeth.
- Diweddariadau misol i'r Bwrdd ynghylch y cwynion a dderbyniwyd.
- Cynllun Iaith Gymraeg.
- Cyswllt gyda Llinell Iaith.

S15.3. Caiff staff eu cefnogi i ddysgu'r Gymraeg ac mae pob aelod staff yn cael eu hyfforddi ar ddefnyddio'r broses gwyno yn ystod y sesiwn gynefino. Rhoddir canllawiau i staff priodol i gynnal ymchwiliadau i gwynion ac mae'r NPSA wedi darparu hyfforddiant i ddadansoddi gwraidd y broblem. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi penodi Swyddog Cyfathrebu.

S15.4. Mae'r polisi cwynion wedi'i adolygu a'i ddiwygio a chaiff ei ailgyhoeddi maes o law.

S15.5. Cytunwn i'r asesiad o **Datblygu** ar bob lefel. Er ein bod wedi cytuno i'r asesiad o **Datblygu**, nid oedd enghreifftiau o welliannau a gyflawnwyd o ganlyniad i gwynion wedi'u cynnwys fel rhan o'r cyflwyniad.

Safon 16

Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:

a. *i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu oddi wrthynt;*

b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;

c. *dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau a*

ch. *sicrhau bod pobl yn gweithredu ar hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser sy'n ofynnol.*

S16.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S16.2. Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Dyma rai ohonynt:

- Strwythurau, prosesau a pholisïau priodol ar waith ar gyfer adrodd digwyddiadau a pheryglon anffafriol.
- Dangosyddion perfformiad allweddol gan gynnwys adrodd gwybodaeth am ddigwyddiadau i'r Bwrdd ym mhob cyfarfod ac i'r is-bwyllgor llywodraethu clinigol.
- Cyflwyno adroddiadau ar dueddiadau o ran digwyddiadau i'r is-bwyllgor rheoli risg ac i'r is-bwyllgor llywodraethu clinigol.
- Rhoi rhybuddion diogelwch cleifion a chyfarwyddebau llywodraethu clinigol ar safle mewnrwyd yr Ymddiriedolaeth a'u defnyddio i nodi'r camau a gymerwyd a'r gwersi a ddysgwyd drwy'r Ymddiriedolaeth.

S16.3. Rhoddir hyfforddiant priodol i bob aelod staff ynghyd â hyfforddiant pellach ar bob cwrs i barameddygon dan hyfforddiant. Mae'n bwysig, fodd bynnag, fod yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau y caiff gwaith ei gwblhau i 'gau pen y mwdwl' i'r Bwrdd ynghylch y camau a gymerwyd ac unrhyw dueddiadau sy'n amlygu eu hunain.

S16.4. O'r dystiolaeth a gyflwynwyd, tynnwyd sylw at fater prydlondeb derbyn gwybodaeth am ddigwyddiadau o ystyried cwmpas daearyddol y corff, ac mae angen rhoi sylw i'r mater hwn.

S16.5. Er ein bod yn cytuno gyda'r asesiad o **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel ar gyfer y safon hon, bydd adolygu'r trefniadau llywodraethu clinigol yn amlwg yn cael effaith ar allu parhaus y corff i gyflawni neu ragori ar y safon hon o ran adrodd trefniadau. Mae'n bwysig sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith yn ystod y cyfnod trosiannol hwn.

Safon 17
Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrff eraill.

S17.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S17.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae amrediad o bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith. Nodwyd, fel rhan o drosglwyddo'r NHSDW i'r Ymddiriedolaeth, fod Grŵp Prosiect Amddiffyn Plant wedi'i sefydlu i ystyried integreiddio amrywiol bolisïau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, mae angen gwella'r ddarpariaeth o adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd ynghylch materion 'diogelu'.

S17.3. Mae strategaeth a rhaglen hyfforddiant amddiffyn plant ar waith sy'n amlinellu'r gwahanol lefelau o hyfforddiant y mae'n ofynnol i staff eu cael. Cynhelir gwiriad manylach y Swyddfa Cofnodion Troseddol ac archwiliadau ar gyfer pob aelod staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant. Penodwyd Swyddog Diogelu Plant sy'n aelod o'r Fforymau Iechyd Amddiffyn Plant Rhanbarthol ledled Cymru sy'n ddolen gyswllt i'r byrddau diogelu lleol. Ceir cynlluniau fel rhan o'r adolygiad o drefniadau presennol i atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer amddiffyn plant ac mae'r rhain yn cynnwys penodi gweithiwr proffesiynol arweiniol a fydd yn rhoi cyngor a chefnogaeth ychwanegol i'r nyrs arbenigol.

S17.4. Darperir rhywfaint o hyfforddiant ar gyfer amddiffyn oedolion diymgeledd ond mae angen cyflwyno'r hyfforddiant fesul cam ledled yr Ymddiriedolaeth.

S17.5 Mae'n bwysig fod y camau gweithredu a gymerwyd gan yr Ymddiriedolaeth i ddatblygu a symud trefniadau amddiffyn plant yn eu blaenau yn cael eu defnyddio i amddiffyn oedolion diymgeledd.

S17.6. Cytunwn â'r asesiad o **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 18
Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb pan fo hynny'n ofynnol.

S18.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu** ac **Ymarfer** y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S18.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon a cheir tystiolaeth o fewn 'Amser i Wneud Gwahaniaeth' fod nifer o nodau yn gysylltiedig â pharodrwydd i ymdrin ag argyfyngau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw adrodd ffurfiol i'r Bwrdd ar y materion hyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth hefyd gynllun digwyddiadau mawr wedi'i sefydlu. Caiff hwnnw ei adolygu'n rheolaidd yn ogystal â chynlluniau parhad busnes a chofrestr risg.

S18.3. Ar y lefel Weithredol, cafwyd tystiolaeth fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan mewn ymarferiadau rheolaidd a gaiff eu cynnal ym mhob un o'r tri rhanbarth ledled Cymru gyda'r nod o brofi rhannau allweddol o'r cynllun digwyddiadau mawr ac ymwybyddiaeth staff a rheolwyr a dealltwriaeth o'r broses.

S18.4.Er bod hwn yn faes lle dylai'r Ymddiriedolaeth fod yn batrwm gydag adroddiadau'r Bwrdd yn cyfeirio at barodrwydd a chynlluniau ar gyfer gwella, gan nad oes unrhyw dystiolaeth wirioneddol o fewn y cyflwyniad o arfarnu neu feincnodi sy'n arwain at welliant parhaus, ystyriwn mai **Datblygu** a wna'r Ymddiriedolaeth yn unig ar bob un o'r tair lefel.

Safon 19

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:

a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;

b. bod dyfeisiadau meddygol amldro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n dda;

c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael eu rheoli; a

ch. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.

S19.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol oedd **Datblygu** ac **Arwain** ar y lefel Profiad Defnyddwyr.

S19.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos fod y Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ond prin oedd y gwaith a wnaed i weithredu camau o fewn cynlluniau strategol i fynd i'r afael â'r safon hon. Dyma rai o'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r safon hon:

- Rheoli polisi dyfeisiadau meddygol.
- Gweithgor cerbydau ac offer clinigol yn adrodd i'r is-bwyllgor llywodraethu clinigol.
- Polisïau rheoli heintiau'n cael eu monitro gan y pwyllgor rheoli heintiau.
- Polisïau a gweithdrefnau ar reoli meddyginiaethau.
- Polisïau rheoli gwastraff sy'n diffinio lefel atebolrwydd y Bwrdd.
- Darparodd yr Ymddiriedolaeth dystiolaeth fod y Bwrdd yn cydymffurfio â gofynion rheoleiddio'r rheoliadau gwastraff peryglus.

Mae'n aneglur, fodd bynnag, sut y caiff sicrwydd ei roi i'r Bwrdd fod pob dyfais feddygol amldro'n cael eu diheintio'n briodol cyn ei defnyddio fel bod rheolaeth dda dros y risgiau sy'n gysylltiedig â diheintio.

S19.3. Yr ydym yn anghytuno, felly, â'r asesiad Datblygu ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn ystyried mai **Ymateb** yn unig a wna'r Ymddiriedolaeth gan mai prin yw'r dystiolaeth o ddefnydd ymarferol ar draws y corff. Gan mai prin yw'r dystiolaeth o ymarfer arloesol neu rannu y tu hwnt i'r corff ei hun, ni allwn gytuno fod yr Ymddiriedolaeth yn Arwain ar y lefel Profiad Defnyddwyr ac ystyriwn mai **Ymateb** a wna'r corff ar y lefel hon hefyd.

Safon 20
Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.

S20.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu.**

S20.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Dyma rai ohonynt:

- Chwaraeodd staff ran frwd yn y gwaith o ffurfio 'Amser i Wneud Gwahaniaeth' drwy ymgynghori mewn gweithdai a dosbarthwyd disg e-ddysgu i'r staff a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol.
- Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol (AD) yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Anweithredol ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd.
- Mae'r Bwrdd wedi sylweddoli beth yw effaith absenoldebau staff ar y corff ac wedi datblygu cynllun sy'n anelu at leihau absenoldebau a chefnogi staff.
- Derbynnir adroddiadau rheolaidd gan y Bwrdd ar y cynllun AD yn 'Amser i Wneud Gwahaniaeth'.
- Mae tri chynrychiolydd o ochr y staff yn aelodau o'r Bwrdd i sicrhau bod barn a sylwadau staff yn goleuo'r broses o lunio penderfyniadau strategol.

S20.3. Cafwyd tystiolaeth fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu'r Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth i bob aelod staff fel rhan o raglen yr Ymddiriedolaeth o newidiadau. Cynhaliwyd arolwg yn 2005 ac mae'r canlyniad wedi'i adrodd i'r pwyllgor AD a chynllun gweithredu wedi'i gytuno.

S20.4. Cafwyd tystiolaeth bod rhaglenni hyfforddiant gloywi i staff wedi newid i fod yn fodel o ddysgu ar sail ymarfer o ganlyniad i adborth gan staff.

S20.5. Cytunwn i'r asesiad o **Datblygu** ar bob lefel.

Safon 21
Mae cyrff gofal iechyd:

- *a. yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff proffesiynol cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- *b. yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig lynu wrth eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol; ac*
- *c. yn mynd i'r afael os bydd angen â thangynrychiolaeth o blith grwpiau lleiafrifol.*

S21.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S21.2. Gallwn gadarnhau ein bod yn ystyried fod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac y gwneir defnydd ymarferol ohoni ar draws y corff. Cyflwynwyd tystiolaeth fod y pwyllgor AD yn goruchwylio'r broses o weithredu polisïau'r Ymddiriedolaeth yn y maes hwn ac mae archwiliad mewnol wedi ymgymryd ag adolygiad o weithgareddau sy'n gysylltiedig ag AD i sicrhau cydymffurfiad o amgylch meysydd a allai fod yn risg wrth ddethol a recriwtio staff. Nid ydym yn glir, fodd bynnag, pryd y digwyddodd hynny ac a gydymffurfiwyd â'r argymhellion ers hynny.

S21.3. Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi adolygu, cymeradwyo a dosbarthu'r Cod Ymyddygiad a Safonau Ymddygiad Proffesiynol, ond nid yw'n sicrhau sut y byddir yn sicrhau bod staff yn cydymffurfio â hwn.

S21.4. Sefydlwyd cynllun Cydraddoldeb Anabledd a Chydraddoldeb Hiliol a chynllun gweithredu a sefydlwyd prosiect 'Gweithlu Amrywiol' dan 'Amser i Wneud Gwahaniaeth', Cynllun Moderneiddio'r Ymddiriedolaeth, er mwyn sicrhau bod y gweithlu'n cynrychioli'r gymuned a wasanaetha.

S21.5. Mae'r Coleg Hyfforddiant Ambiwlans Cenedlaethol yn cynnal archwiliad misol o'r parameddygon a gofrestrir.

S21.6. Cytunwn â'r asesiad o **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol ac ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Nid yw'n glir i ni, ar y lefel Profiad Defnyddwyr, pa brosesau sydd ar waith i ddelio gyda sefyllfaoedd pan nad oes cydymffurfio â gofynion cyflogaeth, cymwysterau a chofrestru. Hefyd, mewn amgylchiadau pan nad yw'r gwiriad CRB wedi'i ddychwelyd neu wedi'i glirio ar gyfer aelod staff p'un a yw ef/hi i beidio â gweithio heb oruchwyliaeth gyda phlentyn neu oedolyn diymgeledd. Ni allwn gytuno felly i asesiad yr Ymddiriedolaeth o Datblygu ar y lefel hon ac ystyriwn mai **Ymateb** sy'n briodol.

Safon 22
Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:

a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;
b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol; ac
c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.

S22.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S22.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r rhain yn golygu cyflwyno:

- Dulliau ar gyfer recriwtio a dethol staff sy'n cynnwys cadarnhad o gymwysterau a gofynion eraill y swydd.
- Caiff anghenion hyfforddiant clinigol eu dynodi trwy waith yr is-bwyllgor llywodraethu clinigol trwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad clinigol a gwaith archwilio ac effeithioldeb.
- Is-grwp addysg, hyfforddiant a datblygiad.

S22.3. Mae pob aelod o'r staff clinigol yn glynu wrth y rheolau a'r rheoliadau a bennir gan y Coleg Hyfforddiant Ambiwlans Cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant ôl-gofrestru

sy'n golygu ymgymryd â hyfforddiant gloywi rheolaidd lle cedwir cofnod ffurfiol o bresenoldeb yn yr hyfforddiant.

S22.4.Nid oes system gwerthuso ffurfiol ar hyn o bryd ar gyfer pob aelod staff ond mae'r Ymddiriedolaeth wedi adrodd ei bod yn gweithio tuag at weithredu'r Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau. Mae angen bwrw ymlaen i weithredu'r Fframwaith er mwyn datblygu dadansoddiad cynhwysfawr o anghenion hyfforddiant ac i sicrhau system briodol o werthuso ac i sicrhau bod adolygiadau datblygu perfformiad wedi'u sefydlu.

S22.5 Cytunwn ag asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 23

Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:

- *a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses o ddarparu gwasanaethau, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu sefyllfa, a chan*
- *b. raglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S23.2. Caiff pob aelod staff eu hysbysu o'r drefn ar gyfer codi pryderon ymysg staff yn y sesiwn gynefino, trwy hysbysiadau yn y gorsafoedd ac mae hefyd ar gael ar y mewnrwyd. Mae'r prosiect AD a'r KSF y cyfeiriwyd atynt eisoes hefyd yn mynd i'r afael ag ystyriaethau gwerthfawrogi staff a rhoi cydnabyddiaeth.

S23.3. Gallwn gadarnhau fod y Bwrdd wedi cymryd camau ac y cânt eu gweithredu'n ymarferol ar draws y corff i gyfarch y safon hon. Sefydlwyd amrediad o bolisïau a gweithdrefnau priodol sy'n rhoi arweiniad clir ynghylch cyfrinachedd er mwyn cefnogi'r asesiad o **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 24
Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:

a. *fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol; a*
b. *sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S24.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau a cheir tystiolaeth o ddefnydd ymarferol ohonynt ar draws yr Ymddiriedolaeth i gyfarch y safon hon. Dyma rai ohonynt:

- Sefydlwyd protocol ffurfiol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd CIC. Mae hyn yn hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth rhwng y cyrff a hefyd yn cynorthwyo'r broses ar gyfer cynnwys y cyhoedd a chleifion.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio'n glòs gyda'r sector gwirfoddol i ddatblygu'r cynlluniau ymateb cyntaf ac i gefnogi gwasanaethau gofal i gleifion.
- Mae'r Ymddiriedolaeth wedi atgyfnerthu'i chysylltiadau â Sefydliad Prydeinig y Galon, Byrddau Iechyd Lleol [BILl], Cynghorau Iechyd Cymuned [CIC] ac aelodau o'r gymuned i ddarparu diffibrilwyr mewn lleoliadau allweddol.

S24.3. Datblygwyd y system 'Asesu a Chyfeirio' yn Sir y Fflint mewn partneriaeth â'r BILl lle hyfforddwyd parameddygon i asesu cleifion a allai fod ag un o nifer o gyflyrau a gallent gynnig dewisiadau ar wahân i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys [A&E].

S24.4. Sefydlodd yr Ymddiriedolaeth ganolfan archebu cludiant Cymru-gyfan mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaethau GIG a BILlau i alluogi cludo cleifion i'r ysbyty am apwyntiadau trwy gyfrwng y ganolfan archebu.

S24.5. Cytunwn â'r asesiad o **Datblygu** ar bob lefel.

Safon 25
Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal i gleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.

S25.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu** ac asesiad o **Ymateb** ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S25.2. Cymeradwyodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth y Strategaeth Gwybodaeth a Chyfathrebu yn 2005. Nid oedd yn glir fodd bynnag pa gynnydd a gyflawnwyd i'w hadolygu. Cyfeiriwyd at 'Amser i Wneud Gwahaniaeth' a bod gwelliannau TG allweddol wedi'u dynodi ynddo.

S25.3. Cafwyd tystiolaeth a ddangosai bod amrediad o opsiynau wedi'u dynodi i fynd i'r afael â'r materion allweddol ar y lefel Weithredol ac felly gellir cytuno i asesiad o **Ymateb**. Y mae'r rhain yn cynnwys:

- Penodi cydlynydd hyfforddiant Trwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd (ECDL) ac mae rhaglen ar y gweill.
- Mae staff arbenigol TGC wedi cael hyfforddiant o dan gyllid 'Quick Wins' Hysbysu Gofal Iechyd.
- Amrediad o wybodaeth ar fewnrwyd yr Ymddiriedolaeth.

S25.4. Ni ddarparwyd tystiolaeth ac ni chafwyd arwydd o wirio cysondeb ar gyfer gwybodaeth yn gyffredinol.

S25.5. Cytunwn ag asesiad yr Ymddiriedolaeth o **Ymateb** ar y lefel Weithredol ond prin oedd y dystiolaeth o sicrwydd y Bwrdd o'r safon hon ac oherwydd hynny ni allwn ond cytuno i asesiad o **Ymateb** ar y lefel Gorfforaethol ond cytuno i asesiad o **Ddatblygu** ar lefel Profiad Defnyddwyr.

Safon 26
Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol ar waith i sicrhau:

a. *bod y sefydliad, o'r eiliad y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn cadw'r wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r*

wybodaeth yn briodol pan nad oes mo'i hangen arnynt bellach; ac

b. y cedwir gwybodaeth am gleifion yn gyfrinachol.

S26.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S26.2. Gallai'r Bwrdd ddangos ei fod yn cydnabod y materion allweddol i roi sylw iddynt ond prin oedd y dystiolaeth o gyfeiriad strategol. Yn yr un modd, ceir cydnabyddiaeth o'r materion ar y lefel Weithredol a rhywfaint o eglurder ynghylch yr hyn y mae angen ei wneud ond prin iawn yw'r dystiolaeth o weithredu ymarferol ar draws yr Ymddiriedolaeth.

S26.3. Ar y lefel Weithredol, cyfeiria'r cyflwyniad at amrywiaeth o weithgareddau hyfforddi sy'n cynnwys rheoli cofnodion, er enghraifft, cynefino a phecyn hyfforddiant sydd i'w gael ar y mewnrwyd. Mae sylwadau eraill yn cydnabod yr angen i adolygu'r prosesau rheoli cofnodion ac yn datgan fod polisi'r Ymddiriedolaeth i reoli cofnodion y GIG bellach yn hen a bod angen ei adolygu a'i ddiwygio. Mae hyn yn peri pryder ac mae angen rhoi ystyriaeth bellach iddo gan ddiweddaru unrhyw wybodaeth am hyfforddiant yn unol â hynny. Ni allwn gytuno felly ag asesiad yr Ymddiriedolaeth o Datblygu ac ystyriwn mai'r asesiad priodol yw **Ymateb** ar bob un o'r tair lefel.

Safon 27

Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da wedi'u sefydlu, ac mae'r rheiny:

a. yn gweithredu ar egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;

b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;

c. yn mynd ati i helpu'r holl aelodau staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;

ch. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg; ac

d. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.

S27.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu**.

S27.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Cynhelir cyfarfodydd misol o'r Bwrdd lle derbynnir adroddiadau rheolaidd gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol yn ogystal ag adroddiadau ad hoc. Mae rhywfaint o bryder, fodd bynnag, mai cofnodion Ionawr 2006 yw'r rhai diweddaraf sydd i'w cael ar y we, ac mae angen cymryd camau i gywiro hyn. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithredu nifer o welliannau i'r modd y caiff busnes y Bwrdd ei gynnal ac mae, ar hyn o bryd, yn adolygu ei strwythur o bwyllgorau.

S27.3. Er bod y cyflwyniad yn datgan fod llinellau clir o atebolrwydd ac adrodd, ceir nifer fawr o bwyllgorau sy'n ei gwneud yn anodd cyd-gysylltu'r risgiau a gweld yn glir sut y ceir cynnydd mewn risgiau. Hefyd, y dyddiad ar y polisi rheoli risg a gyflwynir fel tystiolaeth yw 2004. Nid oes cyfeiriad o gwbl yn y cyflwyniad at fframwaith sicrwydd sy'n cysylltu risgiau ag amcanion busnes.

S27.4. Cytunwn i'r asesiad o **Datblygu** ar y lefel Gorfforaethol. Ar y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr, cytunwn fod cydnabyddiaeth i'r materion sydd i dderbyn sylw a bod angen eglurder ynghylch camau gweithredu, ond prin yw'r dystiolaeth o weithredu ymarferol ar draws y corff ac ar y sail honno, ystyriwn mai **Ymateb** a wna'r Ymddiriedolaeth ar y lefelau hyn.

Safon 28
Mae cyrff gofal iechyd:

- *a. yn sicrhau bod egwyddorion llywodraethu clinigol yn greiddiol i waith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol;*
- *b. yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol; ac*
- *c. yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Datblygu** ac yr ydym yn cytuno â hyn.

S28.2. Gallai'r Ymddiriedolaeth ddangos bod y Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn meddu ar gyfres gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau a oedd wedi'u haseinio, gynt, i'w hadolygu gan oedolion a

oedd hefyd yn gyfrifol fod unrhyw newidiadau a wnaed yn adlewyrchu'r arferion gorau. O fewn y newidiadau presennol, mae'r tîm llywodraethu clinigol, erbyn hyn, yn rhan o'r gyfarwyddiaeth gofal heb ei drefnu ac mae'r cyfrifoldeb hwn wedi'i drosglwyddo i'r swyddogion gweithrediadau clinigol.

S28.3. Nod 'Amser i Wneud Gwahaniaeth' yw cyflwyno strwythur o reolaeth glinigol sy'n seiliedig ar arweinyddion tîm ynghyd â phrosesau llywodraethu a rheoli cysylltiedig. Mae'r system hon wedi'i gweithredu mewn rhai rhannau a, maes o law, caiff ei chyflwyno fesul cam ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae un o'r prosiectau hefyd yn ymwneud â datblygu a chyflwyno fframwaith llywodraethu clinigol i ddiogelu safonau clinigol uchel.

4.4. Iechyd y Cyhoedd

Safon 29
Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:

- *a. drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles; a*
- *b. thrwy sicrhau bod eu polisïau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

Safon 30
Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon; ac*
- *b. yn ystyried yr holl bolisïau cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun yng nghyswllt y safonau iechyd cyhoeddus a nodir uchod oedd **Ymwybodol**. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datgan nad oes ganddi fawr o gyswllt, os o gwbl, â'r maes hwn. Cytunwn â'r asesiad hwn ond ystyriwn fod gan yr Ymddiriedolaeth ran i'w chwarae yng nghyswllt y safonau hyn a byddwn yn rhoi rhagor o arweiniad i'r Ymddiriedolaeth cyn iddi gyflwyno ei hunan-asesiad nesaf.

Safon 31
Mae cyrff gofal iechyd:

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- *b. yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- *c. yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd i iechyd; ac*
- *ch. yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1. Gweler yr ymateb i Safon 18.

Safon 32
Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.

S32.1. Asesiad yr Ymddiriedolaeth ohoni'i hun ar y lefel Gorfforaethol, y lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a'r lefel Profiad Defnyddwyr oedd **Ymateb**.

S32.2. Cyflawnodd yr Ymddiriedolaeth y Safon Iechyd Gorfforaethol Arian yn 2004 ac mae, ar hyn o bryd, yn y broses o ailgyflwyno ei chais. O ystyried hyn, ystyriwn fod yr Ymddiriedolaeth yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion hyn ac, oherwydd hynny, ystyriwn ei bod yn **Datblygu** ar bob un o'r tair lefel o ran y safon hon.

S32.3. Mae angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y cais a gyflwynir yn adlewyrchu cyfansoddiad y corff newydd gan gynnwys Galw Iechyd Cymru.

Yn Atodiad 2, ceir crynodeb o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 safon fel ag y'u haseswyd gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru trwy hunan-asesu a chan AGIC yn dilyn profion ac arfarnu.

5. Y Camau Nesaf

5.1. Mae'n ofynnol i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007 a fydd yn adlewyrchu camau gweithredu'r adroddiad hwn ac adroddiad Galw Iechyd Cymru. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno i'r cynllun, a bydd hefyd yn monitro ei weithrediad fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad a sefydlwyd ar gyfer GIG Cymru. Bydd i'w gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth.

5.2. Dros y misoedd i ddod, bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r dull asesu at y dyfodol ac i gysoni proses hunan-asesu Safonau Iechyd i gyd-fynd â'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Cyhoeddir adroddiad Cymru-gyfan ym mis Tachwedd 2007 a bydd hwn yn integreiddio'r canfyddiadau o adroddiadau unigol mewn trosolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd yn tanlinellu'r themâu allweddol a'r meysydd o risg a gaiff sylw trwy'r broses asesu Safonau Gofal.

Atodiad 1

Diffiniadau o'r Lefelau Aeddfedrwydd

	Ymwybodol	Ymateb	Datblygu	Ymarfer	Arwain
Corfforaethol	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y dylid rhoi sylw iddynt ond ni all ddangos penderfyniadau/camau gweithredu i roi sylw iddynt.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac wedi dynodi opsiynau a flaenoriaethir, er nad oes tystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i ymdrin â'r materion allweddol trwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da yn y corff drwyddo draw.	Mae'r Bwrdd yn symud yr agenda strategol yn ei blaen ac yn ei monitro gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus ar draws y corff cyfan.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol trwy weithredu arferion arloesol a gaiff eu rhannu ar draws y corff a thu hwnt i eraill, gan alluogi cynaliadwyedd hirdymor.
Gweithredol	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion y dylid rhoi sylw iddynt, ond nid oes dulliau wedi'u datblygu i wneud hynny.	Ceir cydnabyddiaeth o'r materion allweddol y dylid rhoi sylw iddynt a cheir amrediad o opsiynau dynodedig i fynd i'r afael â hwy.	Cymerir camau i ymdrin â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o weithredu ymarferol yn y corff drwyddo draw.	Mae cynlluniau sydd wedi'u datblygu'n dda yn cael eu gweithredu yn y corff drwyddo draw ac mae'r rheiny'n mynd i'r afael â materion allweddol gyda thystiolaeth o arfarnu a meincnodi gan arwain at welliant parhaus.	Ceir tystiolaeth o ymarfer arloesol sy'n cael ei rannu ar draws y corff, a thu hwnt i eraill. Maent yn datblygu ymhellach eu dulliau i sicrhau gwelliannau cynaliadwy yn y tymor hir.
Profiad Defnyddwyr	Mae profiadau'r unigolyn(ion) ar y cyfan yn wael ac ni ddatblygwyd dulliau o fewn y gwasanaeth i roi sylw iddynt.	Nid yw profiadau'r unigolyn(ion) ar y cyfan yn dda er bod dulliau wedi'u datblygu o fewn y gwasanaeth i roi sylw iddynt.	Mae profiadau'r unigolyn(ion) yn gwella mewn sawl maes, er nad oes cysondeb yn hynny o beth hyd yma yn y corff drwyddo draw.	Mae profiadau'r unigolyn(ion) yn dda ar y cyfan ar draws pob maes.	Mae profiadau'r unigolyn(ion) yn ardderchog ar y cyfan a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth glir o arfer da, y gellir ei rhannu.

Atodiad 2

Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon

Allwedd

L	Arwain
P	Ymarfer
D	Datblygu
R	Ymateb
A	Ymwybodol

Safon 1

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	↔	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**A**	↔	**A**
Profiad Defnyddwyr	**R**	↔	**R**

Safon 2

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	↔	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**D**	↔	**D**
Profiad Defnyddwyr	**D**	↔	**D**

Safon 3

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	↔	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**D**	↔	**D**
Profiad Defnyddwyr	**D**	↔	**D**

Safon 4

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**P**	↓	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**P**	↓	**D**
Profiad Defnyddwyr	**P**	↓	**D**

Safon 5

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	↔	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**D**	↔	**D**
Profiad Defnyddwyr	**A**	↔	**A**

Safon 6

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**R**	↔	**R**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**R**	↔	**R**
Profiad Defnyddwyr	**R**	↔	**R**

Safon 7

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**R**	↔	**R**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**R**	↔	**R**
Profiad Defnyddwyr	**R**	↔	**R**

Safon 8

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**D**	↔	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**D**	↔	**D**
Profiad Defnyddwyr	**D**	↔	**D**

Safon 9

Amherthnasol

Safon 10

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**P**	↓	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**D**	↔	**D**
Profiad Defnyddwyr	**P**	↓	**D**

Safon 11

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	↑	D
Profiad Defnyddwyr	R	↑	D

Safon 12

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 13

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 14

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	P	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 15

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 16

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 17

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 18

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	P	↓	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 19

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad Defnyddwyr	L	↓	R

Safon 20

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 21

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↓	R

Safon 22

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 23

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 24

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 25

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	R	↔	R
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 26

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	R
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad Defnyddwyr	D	↓	R

Safon 27

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	R
Profiad Defnyddwyr	D	↓	R

Safon 28

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad Defnyddwyr	D	↔	D

Safon 29

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	A	↔	A
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	A	↔	A
Profiad Defnyddwyr	A	↔	A

Safon 30

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	A	↔	A
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	A	↔	A
Profiad Defnyddwyr	A	↔	A

Safon 31

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Amh.		
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Amh.		
Profiad Defnyddwyr	Amh.		

Safon 32

	Sgôr Hunan-Asesiad	Amrywiad (fyny/Lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	**R**	↑	**D**
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	**R**	↑	**D**
Profiad Defnyddwyr	**R**	↑	**D**

Atodiad 3

Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad Defnyddwyr






Sgoriau Aeddfedrwydd ar y Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol
Ymwybodol
Ymateb
Datblygu
Ymarfer
Arwain


Sgoriau Aeddfedrwydd ar y Lefel Profiad Defnyddwyr
Ymwybodol
Ymateb
Datblygu
Ymarfer
Arwain


Cytuno/Anghytuno â Sgôr yr Ymddiriedolaeth
6%
19%
75%
AGIC yn cytuno â sgôr yr Ymddiriedolaeth
AGIC yn anghytuno - yn marcio'r Ymddiriedolaeth i lawr
AGIC yn anghytuno - Yn marcio'r Ymddiriedolaeth i Fyny

Atodiad 4

Termau Allweddol

Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan – yn cynghori'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch rheoli a rhagnodi meddyginiaethau yn strategol.

cerdyn sgorio cytbwys - system reoli y gall corff ei ddefnyddio i roi darlun eglur o'i weledigaeth a'i strategaeth a'u trosi'n gamau gweithredu. Mae'n cefnogi gwelliannau parhaus ym mherfformiad sefydliadau.

Gwarcheidwad Caldicott – uwch-glinigydd ym mhob corff GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau o adroddiad Caldicott, a oedd yn adolygu'r broses o warchod a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

llwybr gofal – cyfres bendant o gamau trin a gofal a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion arbennig pob claf unigol.

archwiliad clinigol – arfarniad a mesuriad gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n nodi i ba raddau y maent yn bodloni'r safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

llywodraethu clinigol – fframwaith y mae sefydliadau GIG yn atebol i weithredu drwyddo er mwyn gwella'n barhaus ansawdd eu gwasanaethau a diogelu safonau uchel o ofal.

rhwydweithiau clinigol – grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadau i roi gwell gofal i gleifion.

canlyniad clinigol – yr effaith a gaiff triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) – cyrff dielw, cymunedol sy'n hybu iechyd, eiriolaeth a pholisïau. Sefydlwyd CICau ym 1992 gyda'r bwriad o atgyfnerthu cyfranogaeth gymunedol wrth ddiffinio polisïau lleol a gwladol sy'n effeithio ar fynediad at ofal iechyd ac ansawdd. Mae CICau yn cynrychioli budd y cyhoedd o fewn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i fynegi barn ynghylch newidiadau ym maes iechyd yn eu hardal.

Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) – asiantaeth weithredol a sefydlwyd i helpu cyrff wneud penderfyniadau diogelach ynghylch recriwtio trwy roi gwell mynediad at wybodaeth mewn cofnodion troseddol. Mae'r CRB yn helpu cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i adnabod ymgeiswyr a allai fod yn anaddas ar gyfer ambell swydd, yn enwedig swyddi sy'n golygu cyswllt â phlant neu aelodau diymgeledd eraill o gymdeithas.

diogelu data – gofyniad ar gyrff cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Caiff cyfrifoldebau o'r fath eu cynnwys dan Ddeddf

Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a gynlluniwyd i ddiogelu data a gedwir ar unigolion.

Cynllun Oes – mae'n amlinellu gweledigaeth at ddyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae strategaeth 10 mlynedd wedi'i sefydlu i gyflawni honno. Mae'r strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, pob un ohonynt yn para tua thair blynedd. Mae'r rhain yn cynnwys: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflawni Safonau Uwch a; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o'r Radd Flaenaf.

Safonau Gofal Iechyd – fframwaith cyffredin ar gyfer safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a phartner-sefydliadau i ddarparu gwasanaethau effeithiol, prydlon o ansawdd da ar draws pob lleoliad gofal iechyd.

rheoli heintiau – cyfres o weithdrefnau i atal lledaeniad heintiau a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer sydd wedi'i steryllu, ayb.

Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) – cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, gan sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol ac yn sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

Ymddiriedolaethau'r Gwasanaethu Iechyd Gwladol (GIG) – cyrff hunan-lywodraethol o fewn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae'r Ymddiriedolaethau yn cyflogi amrediad llawn o weithwyr proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, dietegwyr, ffysiotherapyddion, ayb. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawfeddygol, fel arfer, mewn ysbytai e.e. nyrsys ardal, ciropodyddion, ayb. Mae ymddiriedolaethau cyfunol yn darparu gwasanaethau cymunedol ac aciwt dan un drefn reoli.

Y Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Glinigol (NICE) – awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG ac i gleifion ynghylch meddyginiaethau, offer meddygol a gweithdrefnau clinigol.

Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) – awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad gyfan i adrodd, ac yn bwysicach fyth, i ddysgu o gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion.

Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (NPHS) - yn darparu amrediad llawn o wasanaethau iechyd cyhoeddus gyda'r nod: o wella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau ym maes iechyd; amddiffyn yn erbyn afiechydon presennol, newydd ac arfaethedig a pheryglon iechyd a; chyfrannu at welliannau yn y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol.

Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (NSF) – canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydau ac afiechydon.

Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd (PPI) – strategaeth a gynlluniwyd i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i farn a sylwadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a'r cyhoedd wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys – rhaglen sy'n caniatáu amser a amddiffynnir i nyrsys i arsylwi gofal a darparu gwasanaeth, a chyfweld cleifion am y gofal a ddarperir. Fe'i cynlluniwyd i alluogi nyrsys i ddatblygu a mireinio eu gallu fel arweinwyr, gwella eu sgiliau tîm a threfniadaethol a chanolbwyntio ar anghenion y cleifion.

Datganiadau Rheolaeth Fewnol – datganiad ar drefniadau cyffredinol corff y GIG i gael sicrwydd ynghylch rheolaeth effeithiol ar y prif risgiau o fewn y corff.

Bwrdd yr Ymddiriedolaeth – grŵp o bobl sydd, yn statudol, yn gyfrifol am brif benderfyniadau strategaeth a pholisi ym mhob Ymddiriedolaeth GIG. Yn nodweddiadol, mae'n cynnwys cadeirydd, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

Cronfa Risg Cymru (WRP) - Cyd-gynllun hunan-sicrhau i bob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch staff a chleifion trwy annog a chefnogi perfformiad rheoli risg da ac asesu trwy fesur yn erbyn safonau a osodwyd.